taflen ffeithiau

Y pum rhyddid

Mae'r pum rhyddid yn fath o lythyr Siôn Corn i anifeiliaid. Mae'r RSPCA yn credu y dylai pawb sy'n gofalu am anifeiliaid geisio rhoi'r pum rhyddid iddynt:

1. **Rhyddid rhag newyn a syched**
   trwy roi digon o ddŵr ffres a digon, ond nid gormod, o'r bwyd iawn iddynt i'w cadw'n iach.

2. **Rhyddid rhag anghysur**
   trwy wneud yn siŵr bod yr anifeiliaid yn cael y math iawn o amgylchedd gan gynnwys cysgod a rhywle cysurus i orffwys.

3. **Rhyddid rhag poen, anaf a chlefydau**
   trwy eu hatal rhag mynd yn sâl neu gael eu hanafu a thrwy wneud yn siŵr bod anifeiliaid yn cael diagnosis a thriniaeth yn gyflym os yw hynny'n digwydd.

4. **Rhyddid i ymddwyn yn naturiol**
   trwy wneud yn siŵr bod gan anifeiliaid ddigon o le, cyfleusterau cywir a chwmni anifeiliaid eraill yr un fath â nhw.

5. **Rhyddid rhag ofn a gofid**
   trwy wneud yn siŵr bod eu hamgylchiadau a'r driniaeth a gânt yn osgoi dioddef meddyliol.

Athrawon – cewch ragor o wybodaeth yn yr adran *Wyddech chi?* yn adnoddau'r wers.